JAN 2003

SMR

AROLWG CYMUNEDOL YSTRAD MEURIG

YSTRAD MEURIG COMMUNITY AUDIT

Paratowyd gan Archaeoleg Cambria
Ar gyfer Pentir Pumlumon

Prepared by Cambria Archaeology
For Pentir Pumlumon

ARCHAEOLEG CAMBRIA ARCHAEOLOGY

ARCHAEOLEG CAMBRIA ARCHAEOLOGY

RHIF YR ADRODDIAD / REPORT NO. 2003/14
RHIF Y PROSIECT / PROJECT RECORD NO. 47390

Ionawr 2003
January 2003

AROLWG CYMUNEDOL
YSTRAD MEURIG
COMMUNITY AUDIT

Gan / By

Paul Sambrook
&
Jenny Hall

Enw marchnata Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yw Archaeoleg Cambria
Cambria Archaeology is the marketing name of the Dyfed Archaeological Trust Limited.

Paratowyd yr adroddiad yma at ddefnydd y cwsmer yn unig. Ni dderbynnir cyfrifoldeb gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed am ei ddefnyddio gan unrhyw berson na phersonau eraill a fydd yn ei ddarllen neu ddibynnu ar y gwybodaeth y mae'n ei gynnwys

The report has been prepared for the specific use of the client. The Dyfed Archaeological Trust Ltd can accept no responsibility for its use by any other person or persons who may read it or rely on the information it contains.

ARCHAEOLEG CAMBRIA
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed Cyf
Neuadd y Sir, Stryd Caerfyrddin, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin SA19 6AF
Ffon: Ymholiadau Cyffredinol 01558 823121
Adran Rheoli Treftadaeth 01558 823131
Ffacs: 01558 823133
Ebost: cambria@acadat.com Gwefan: www.acadat.com

CAMBRIA ARCHAEOLOGY
Dyfed Archaeological Trust Limited
The Shire Hall, Carmarthen Street, Llandeilo, Carmarthenshire SA19 6AF
Tel: General Enquiries 01558 823121
Heritage Management Section 01558 823131
Fax: 01558 823133
Email: cambria@acadat.com Website: www.acadat.com

The Trust is both a Limited Company (No. 1198990) and a Registered Charity (No. 504616)
CADEIRYDD *CHAIRMAN: B.C.BURNHAM, MA PHD FSA MIFA.* CYFARWYDDWR *DIRECTOR: E G HUGHES BA MIFA*

Cynnwys
Contents

Arolwg Cymunedol Ystrad Meurig
Ystrad Meurig Community Audit 5

Rhan 1: Hanes ac archaeoleg
Part 1: History and archaeology 6
- **Cymraeg** 7
- **English** 13
- **Llyfrau i'w darllen / Reading List** 19

Rhan 2: Mynegai mathau o safleoedd a mapiau 22
Part 2: Site type index and maps

Rhan 3: Rhestr safleoedd
Part 3: Gazetteer

Ceir manylion cyswllt a ffurflen cofnodi hanes lleol ar ddiwedd yr adroddiad
Contact details and a local history record form are at the end of the report.



◀ Map 1: Ardal Pentir Pumlumon
Pentir Pumlumon Area

▼ Map 2: Cymuned Ystrad Meurig
Ystrad Meurig community



AROLWG CYMUNEDOL YSTRAD MEURIG

Diffinnir ardal yr astudiaeth hon gan ffin ardal y Cyngor Cymuned modern.

I raddau helaeth, mae'r safleoedd hanesyddol ac archaeolegol sydd wedi eu cofnodi o fewn yr ardal yn nodweddiadol o'r math o safleoedd a ganfyddir ar draws gweddill Canolbarth Ceredigion.

Yn Rhan 1 o'r adroddiad hon, cyflwynir esboniad o'r prif ffrydiau hanesyddol sydd ar glawr, fesul cyfnod archaeolegol. Mae rhai themâu lleol cryf hefyd yn cael eu cyflwyno i derfynu.

Mae Rhan 2 yn cynnwys rhestr o'r safleoedd sydd ar glawr yn ôl math y safle, gyda chyfres o fapiau thematig i ddangos eu lleoliad o fewn y gymuned.

Yn Rhan 3, cyflwynir manylion yr holl safleoedd archaeolegol ac hanesyddol sydd wedi eu cofnodi yn y Cofnod Safleoedd a Henebion. Er bod rhestr hir o safleoedd wedi eu cynnwys fe welir, yn ddiau, fod yna safleoedd a lleoedd o bwys hanesyddol nad ydynt wedi eu cofnodi eto. Ein gobaith yw y bydd gwybodaeth ychwanegol yn cael ei ychwanegu i'r cofnodion yn sgil y gwaith hwn i greu cofnod llawnach a chywirach o hanes y gymuned.

YSTRAD MEURIG COMMUNITY AUDIT

The area of this study is defined by the boundaries of the modern Community Council area.

To a large extent, the historic sites that are recorded within this area are typical of the site types that are to be found across the rest of Central Ceredigion. The information included in this working report is derived solely from the regional Sites and Monuments Record that is maintained by Cambria Archaeology.

Part 1 of this report includes a description of the main historical themes that are known to us, arranged by archaeological period. Some themes of particular relevance to the community are presented in summary.

Part 2 includes a list of all recorded sites arranged by site type, with a series of thematic maps showing their location within the community.

Part 3 includes details of all archaeological and historical sites recorded in the Sites and Monuments Record. Despite there being a long list of sites presented here, it will doubtlessly be the case that there will be sites and themes of historic importance that are not included. It is to be hoped that new information can be added to the record as a result of this project in order to create a fuller and more accurate record of the community's history.

RHAN 1: Hanes ac archaeoleg

PART 1: History and archaeology

Mesolithig (10,000 CC – 4000 CC)

Yn ystod y cyfnod pell hwn, tybir fod cymunedau dynol yn defnyddio coedwigoedd naturiol yr ardal mynyddig yma ar gyfer hela yn achlysurol. Roedd pobol y cyfnod yn helwyr-gasglwyr, nid ffermwyr, ac felly yn tueddu crwydro o fan i fan yn hytrach na byw mewn mannau sefydlog.

Gan nad oeddynt yn adeiladu tai parhaol na chladdu mewn beddau y medrwn ni eu hadnabod heddiw, mae'n anodd canfod safleoedd sy'n dangos presenoldeb bobol yr oes yma. Yn aml, yr unig arwyddion y gellir eu hadnabod yw'r gwasgariadau fflint gadawsant wrth wneud eu teclynnau ac sydd yn dynodi'r safleoedd lle y byddai grwpiau o'r helwyr hyn yn aros am gyfnod, ac hefyd arfau fflint a gollwyd neu daflwyd i ffwrdd.

Ychydig o safleoedd tebyg sydd wedi eu hadnabod hyd yma yn y fro hon, yn wir, 'does dim un o fewn cymuned Ystrad Meurig. Mae yna un gwasgariad o fflint wedi ei ddarganfod yn Nantymoch, Blaenrheidol (sydd bellach dan ddwr y llyn) ac un pen brysgyll (*macehead)* fflint a ganfuwyd yn ymyl y Bwa, yng nghymuned Pontarfynach.

Neolithig (4,000 CC – 2500 CC)

Hyd y gwyddys, nid oes yr un safle na darganfyddiad yn y gymuned sydd wedi ei briodoli i'r cyfnod yma yn bresennol.

Nid yw hynny i ddweud nad oedd yna bresenoldeb dynol yma yn ystod y cyfnod hwn, wrth gwrs. Mae darganfyddiadau o bwyelli Neolithig wedi eu cofnodi mewn cymunedau cyfagos, gan gynnwys Ystrad Fflur i'r dwyrain.

Y Neolithig oedd oes y ffermwyr cyntaf yn y wlad ac mae'n lled bosibl roedd y broses o ffermio'r tir wedi dechrau yn yr ardal yma hefyd. Mae archaeoleg yn dangos yn eglur inni fod yna gymdeithas drefnus yma yn ystod Oes yr Efydd ac fe all fod ei seiliau i'w canfod yn y Neolithig.

Oes yr Efydd (2500 CC – 800 CC)

Gorwedd Ystrad Meurig cryn bellter i'r gorllewin i fynyddoedd y canolbarth, lle ceir enghreifftiau niferus o garneddau claddu Oes yr Efydd ar y mynydd-dir agored. Sut bynnag, mae nifer o henebion tebyg i'w cael o fewn cymuned Ystrad Meurig, rhai ohonynt mewn cyflwr da iawn (e.e. carnedd PRN 2045).

Er y gallwn adnabod rhai o'r safleoedd lle claddwyd y meirw yn ystod Oes yr Efydd, mae absenoldeb o dystiolaeth am anheddau pobl y cyfnod ar hyn o bryd. Un math o safle sy'n anodd i'w deall ond sydd fel rheol yn cael ei briodoli i Oes yr Efydd yw'r "aelwydydd" neu bentyrrau o gerrig llosg. Credir fod y twmpathau hyn yn mannau coginio, neu hyd yn oed yn chwystai (*sweat lodges)* hynafol, ond nid yw'n bosibl eto dehongli eu rôl mewn cymdeithas oedd yn cael ei nodweddu gan boblogaeth amaethyddol, sefydlog. Ceir un enghraifft dda yn lleol, sy'n Heneb Gofrestredig (PRN 1975).

Mae darganfyddiadau lleol o fwyelli cerrig yn ein helpu i ddod yn agosach at bobl y cyfnod hefyd. Mae enghreifftiau da wedi eu cofnodi yn yr ardal hon (e.e. PRN 12201 a 12853).

Dylid cofio fod yna tystiolaeth bellach fod tystiolaeth am gloddio mwynau yn ystod Oes yr Efydd wedi dod o ardaloedd cyfagos, yn enwedig ar Fryn Copa, Cwmystwyth, Pontarfynach. Gall hyn dangos pwysigrwydd yr hyn a elwir Canolbarth Ceredigion heddiw, yn ystod y cyfnod pell hwn.

Mae angen gwneud llawer o waith eto cyn y deallwn natur y cymunedau oedd yn bodoli yma yn ystod y cyfnod hwn, a chyfnodau cynharach. Mae un hanesyn rhyfedd yn perthnasol i'r ardal ac i'r cyfnod o bosibl.

Yr Oes Haearn (800 CC – 43 OC)

Ymhlith y safleoedd sy'n nodweddiadol o'r cyfnod hwn y mae'r bryngaerau amddiffynnol, a godwyd er mwyn diogelu pobl ac eiddo mewn cymdeithas oedd yn cael ei dominyddu gan penaethiaid rhyfelgar a'u gosgorddion. Mae bryngaer cryf, mewn cyflwr da yn sefyll o hyd ar ben Penyffrwd (PRN 2037), ychydig i'r gogledd i'r eglwys yn Ystrad Meurig. Oddi mewn i'r rhagfuriau yno, mae olion o leiaf tri thy crwn i'w gweld o hyd.

Math arall o safle amddiffynnol a geir o'r cyfnod yw'r ffermle amddiffynnol ac mae un enghraifft bosibl o safle o'r math i'w gael ger Gareglwyd (PRN 2044).

Roedd y safleoedd amddiffynnol hyn o adeiladwaith gryf iawn fel arfer ac felly maent wedi goroesi ers dros 2,000 o flynyddoedd. Yr hyn sydd wedi ei golli o'r cyfnod yw'r tystiolaeth am gartrefi y bobl gyffredin nad oeddynt yn byw yn y caerau. Mae'n debyg mai y tu allan i'r caerau byddai'r rhan fwyaf yn byw – yn ffermio'r tir ac yn byw mewn tai a bythynnod gwasgaredig, o bosibl yn ddianc i ddiogelwch y caerau ar adegau o ryfel neu ymosodiadau gan lwythi eraill – 'does dim amheuaeth fod bywyd yn beryglus ar adegau.

Mae presenoldeb y bryngaerau yn awgrymu yn gryf inni fod ffermio ac anheddu parhaol yn ardal gymuned Ystrad Meurig yn ystod y cyfnod hwn, yn ogystal â defnydd o goedwigoedd a phorfeydd mynyddig yr ardal er mwyn cynnal y boblogaeth.

Y Cyfnod Rhufeinig (43 OC – 410 OC)

Eto, ychydig iawn a wyddom am yr ardal yn ystod y cyfnodau Rhufeinig (y ganrif 1af OC – 4ydd ganrif OC). Mae'n bosibl fod bywyd mewn ardal wledig fel Ystrad Meurig wedi parhau yn dawel yn ystod blynyddoedd hyn, ond y tebyg yw i'r ardal brofi cryn dipyn o newid diwylliannol ac economaidd dros bron i 400 mlynedd o ddylanwad gan y byd Rhufeinig. 'Does dim cofnod o safleoedd na darganfyddiadau Rhufeinig o'r gymuned, fodd bynnag.

Mae tystiolaeth i'r Rhufeiniaid fod yn bresennol yng nghyffiniau'r fro oherwydd lleoliad caerau Rhufeinig Trawsgoed i'r gogledd a Chae'r Gaer (plwyf Llangurig, Powys) i'r gogledd-ddwyrain. Mae arian Rhufeinig wedi cael ei darganfod yn Ystrad Fflur hefyd. Gwyddom hefyd am fodolaeth y ffordd Rhufeinig sy'n rhedeg o Bumsaint, Sir Gaerfyrddin, trwy ganol Ceredigion, i fyny i ardal Machynlleth. O bosibl, roedd mwynau Canolbarth Ceredigion yn atyniad i'r Rhufeiniaid.

Yr Oesoedd Tywyll neu "Oes y Saint" (410 OC – 1092 OC)

Yn ôl traddodiad, câi Ceredigion ei enw oddi wrth Ceredig fab Cunedda, tywysog Cymreig a ddaeth i'r fro o Ogledd Prydain er mwyn amddiffyn arfordir gorllewinol y Cymry oddi wrth y Gwyddelod. Dywed traddodiad hefyd fod y Ceredig hwn yn daid i Dewi Sant, mabsant Cymru.

Yn nhraddodiad Cymreig, "Oes y Saint" yw'r enw sy'n cael ei rhoi ar y cyfnod hwn yn aml, yn hytrach na'r Oesoedd Tywyll, i dystio am dwf yr eglwys trwy ymdrechion llu o saint Celtaidd cynnar. Gwelir hwn fel cyfnod o oleuni yn hytrach na thywyllwch yng Nghymru gan lawer i hanesydd.

Er bod y traddodiadau yn hysbys inni, gwyddom ond ychydig am gymdeithas y cyfnod yn yr ardal hon. Serch hynny, mae tystiolaeth bendant o weithgarwch y saint cynnar yn ardal Ystrad Meurig. Mae un garreg arysgrifenedig yn eglwys Llanwnnws, sydd yn dwyn arysgrif Lladin tra ddiddorol er cof am Hiroidil mab Carotinn ac yn dyddio i'r 9fed ganrif OC. Mae'n debyg mai Llanwnnws yw hynaf o'r ddwy eglwys yn y gymuned; hyd y gwyddom, eglwys canoloesol yw eglwys Ystrad Meurig. Cysegrwyd Llanwnnws i'r Sant Celtaidd cynnar Gwynwys.

Mae'n bosibl fod safleoedd rhai eglwysi mewn ardaloedd cyfagos hwythau yn hynafol iawn, gyda'u gwreiddiau yn y cyfnod hwn. Meddyliwn yn bennaf, wrth gwrs, am eglwys hynafol Llanddewi Brefi i'r de, sy'n gysylltiedig â hanes Dewi Sant ei hun. Mae tair carreg hynafol â chroesau wedi eu cerfio arnynt i'w gweld hefyd yn Eglwys Llantrisant, Pontarfynach, i'r gogledd. Maent yn dyddio i'r cyfnod rhwng tua 600 OC a 1100 OC ac yn brawf bendant o weithgarwch yr eglwys yn y fro.

Y Canoloesoedd (1092 OC – 1540 OC)

Yn ystod y cyfnod hwn y gwelwn Ceredigion yn ddod yn un o brif rhanbarthau Cymru. Cafodd ei concro gan y Normaniaid yn 1093 a dilynodd gyfnod ansicr iawn, gyda'r Cymry a'r Normaniaid yn brwydro am oruchafiaeth am 200 mlynedd bron. Yn ystod ail-hanner y 12fed ganrif, daeth Ceredigion i fod yn rhan annatod o deyrnas Ddeheubarth, o dan arweinyddiaeth Rhys ap Gruffudd, Yr Arglwydd Rhys, o Ddinefwr. Ar ôl ei farwolaeth ef, bu gwrthdaro ymhellach rhwng ei feibion a Llywelyn Fawr o Wynedd. Ni ddihangodd Ceredigion oddi wrth rhyfeloedd y 13eg ganrif ychwaith, pan concwerwyd Cymru gyfan adeg cwymp Llywelyn ap Gruffudd.

Yn rhyfeddol, mae safle dau gastell o'r cyfnod cythryblus yma o fewn ardal y gymuned, ac un arall ychydig lathenni dros ffin y gymuned ag Ystrad Fflur. Ni wyddom dim am hanes y mwnt ym Mhenycastell (PRN 1976), er bod ei ffurf yn awgrymu efallai na chafwyd y castell bach yma ei orffen o gwbl.

Gwyddom ychydig am fwnt arall a saif ar lannau'r Afon Meurig, y tu allan i ffiniau'r gymuned. Dyma yn sicr yw'r castell adeiladodd y Normaniaid yn gynnar yn ystod y 12fed ganrif pan feddiannwyd Ceredigion ganddynt. Erbyn diwedd y 12fed ganrif, roedd castell cryfach o lawer wedi codi yn ymyl y pentref presennol yn Ystrad Meurig. Roedd gan hwn (PRN 2038) twr carreg cadarn. Ym 1193, ar Noswyl Nadolig, ymosodwyd arno gan Maelgwn ap Rhys, mab yr Arglwydd Rhys mewn modd dramatig iawn. Defnyddiwyd peiriannau gwarchae trymion i dorri'r amddiffynfeydd a chipio'r castell. Dinistriwyd y castell gan Maelgwn i pan fygythiwyd yr ardal gan wyr Llywelyn Fawr ym 1208.

Y gwybodaeth sicraf yn ein meddiant mewn cysylltiad â'r ardal ehangach yw'r hanes sydd ar glawr am ddatblygiad ystadau Abaty Ystrad Fflur o'r 12fed ganrif ymlaen. Sefydlwyd Ystrad Fflur gan Dywysogion Deheubarth, gyda'r Arglwydd Rhys ei hunan yn rhoi tiroedd fel rhoddion i'r mynachod. Dros amser ychwanegwyd tiroedd eang at feddiannau'r abaty. Mae manylion rhai o'r rhoddion hyn o dir wedi goroesi hyd heddiw ac mae ffiniau'r ystadau yn dal i fod yn hysbys.

Roedd ardal Ystrad Meurig yn ffinio â phrif ystad Ystrad Fflur ac felly yn agos iawn at galon gweithgareddau'r abaty. Gwyddom fod ardal y gymuned yn cynnwys rhai tiroedd oedd yn syrthio y tu mewn i'r ystadau mynachaidd hyn, ond roedd pentref Ystrad Meurig a'r ardal o'i gwmpas y tu allan iddynt.

Yn wir, mae gan Ystrad Meurig cysylltiad gyda awdurdod eglwysig arall, sef Ysbytywyr Marchogion St Ioan. Mae'n debyg fod ysbyty neu h*ospitium* o'u heiddo wedi cael ei lleoli yma yn yr Oesoedd Canol ar gyfer pererinion yn teithio trwy'r fro. Ysbyty Ieuan oedd enw'r *hospitium* ac enw gwreiddiol Ystrad Meurig o bosibl. Credir iddo sefyll lle mae ty Mynachdy heddiw, ym mhentref Ystrad Meurig. Mae'r ffaith fod eglwys plwyf Ystrad Meurig wedi' chysegru i St Ioan yn dystiolaeth o'r cysylltiad â'r Ysbytywyr.

Y Cyfnod Ôl-ganoloesol (1540 OC – 1900 OC)

Yn annhebyg i'r cymunedau i'r gorllewin a'r gogledd, mae Ystrad Meurig wedi aros yn gymuned wledig ar hyd y ganrifoedd. Mae'r rhan fwyaf o'r gymuned yn gorwedd y tu allan i ardal y mwyngloddiau ac felly ychydig iawn o olion diwydiannol sydd i'w cael yma. Dim ond un mwynglawdd sylweddol sydd yn y gymuned, sef Grogwynion (PRN 9152).

Nid mwyngloddio oedd yr unig fath o ddiwydiant i gyrraedd y fro. Mae nifer o chwareli bach yn y fro lle cloddiwyd am gerrig adeiladu ers lawer dydd.

Mae'n bwysig iawn hefyd i gofio am bwysigrwydd torri mawn allan o Gors Caron yn y gorffennol, hyd at yr 20fed ganrif. Roedd mawn yn rhad ac hawdd i'w gael ac yn cael ei ddefnyddio'n helaeth yng nghanolbarth Ceredigion, lle mae coed tân wedi bod yn adnodd brin ers talwm.

Mae yna felinau yd a gwlân wedi eu cofnodi yn lleol hefyd. Roedd gan bentref Swyddffynnon felin yd hyd at yr 20fed ganrif (PRN 8733). Roedd ffatri wlân yn yr un pentref (PRN 21394) ac un arall ym mhentref Tŷ'n y Graig (PRN 19169.)

Gwasanaethwyd yr ardal gan rheilffordd y Milford & Manchester yn o ddiwedd y 19eg ganrif hyd at ail-hanner yr 20fed ganrif. Mae'n hen orsaf rheilffordd Ystrad Fflur (PRN19669) yn sefyll o fewn y gymuned ac mae hen gwrs y lein i'w weld o hyd yn ymlwybro ar draws dirwedd yr ardal. Yn ddiau, roedd y rheilffordd wedi gwneud llawer i hybu masnach a datblygiad o fewn y gymunedau yr oedd yn ymweld â nhw.

Amaeth ac Anheddau Gwledig

Ers canrifoedd, mae natur amaethyddiaeth y fro wedi cael ei nodweddu gan ffermydd a phentrefi bychain gwasgaredig a ffermio sydd wedi bod yn asgwrn gefn y fro ers cyfnodau cynnar. Yn ôl pob tebyg, roedd ffermydd yr ardal yn symud eu creaduriaid i borfeydd mynyddig i'r dwyrain dros fisoedd yr haf am fod ychydig o dir ymylol neu fynydd-dir ar gael yma at y diben.

Mae'r patrwm anheddu modern yn dal i fod yn un o anheddau gwasgaredig ar y cyfan, gydag ond ychydig o bentrefi wedi datblygu dros y 200 mlynedd diwethaf, fel Ystrad Meurig, Tŷ'n y Graig a Swyddffynnon. Mae'r rhain wedi ymgasglu o gwmpas eglwysi, capeli, melinau a gefeiliau ac yn bennaf yn ganlyniad datblygiadau cymdeithasol ac economaidd y cyfnod Ôl-ddiwydiannol.

Yr ystadau mawrion

Rhwng y 16eg a'r 20fed ganrifoedd, roedd nifer o ystadau mawrion yn berchen ar y rhan fwyaf o'r tir yn yr ardal. Tyfodd rhai o'r rhain allan o ystadau Abaty Ystrad Fflur. Pan ddiddymwyd yr Abatai yn ystod y 1530au gan y Brenin Harri VIII, dechreuwyd y broses o rannu tiroedd eang a gweddol gyfoethog Ystrad Fflur a'u gwerthu i mewn i ddwylo preifat. Mae enwau ystadau'r Hafod, Nanteos, Trawsgoed a Gogerddan yn hanfodol i astudiaeth o hanes canolbarth Ceredigion.

Aeth tiroedd eraill yr abaty yn y fro i Iarll Essex, ac yna ym 1630 i Ystad Trawsgoed (Crosswood), un o ystadau pwysicaf y sir, a'r pwysicaf mewn perthynas â chymuned Ystrad Meurig. Gwelir y cysylltiad heddiw yn yr hen ysgoldy sydd yn ymyl eglwys Ystrad Meurig, lle mae plac sy'n cyfeirio at y llyfrgell a fu yn ar un adeg,, yn rhodd gan 7fed Iarll Lisburne, o Drawscoed, at ddefnydd y plwyfolion.

Addysg

Ystrad Meurig yw lleoliad yr ysgol ramadeg enwog a sefydlwyd gan Edward Richard yn ystod y 18fed ganrif (PRN 5556), oedd wedi ei chynnal yn yr eglwys ei hunan am gyfnod. Codwyd adeilad pwrpasol ar ei gyfer yn y fynwent yn ddiweddarach ac mae'r adeilad hwnnw'n sefyll o hyd, er ei fod yn segur. Nod yr ysgol ramadeg oedd i addysgu plant yn y ffydd Anglicanaidd ac i raddau oedd hynny yn ei wahanu oddi wrth y werin bobl mewn ardal oedd yn anghydffurfiol ei naws erbyn y 19eg ganrif. Mae gan bentref Swyddffynnon ei ysol ei hunan tua diwedd y 19eg ganrif, ar agor i blant o bob enwad. Mae honno hefyd wedi cau erbyn hyn.

Anghydffurfiaeth

Y Methodistiaid Calfinaidd oedd yr enwad cryfaf yn y fro, ac mae dri chapel Methodistaidd o fewn y gymuned, gyda dau ohonynt yn dal i gael eu defnyddio yn 1998. Capel Swyddffynnon yw'r hynaf, yn dyddio i c.1750 ac wedi'i ysbrydoli gan weithgarwch a sêl y diwygwyr mawr Howell Harries a Daniel Rowland. Mae capel bedyddiedig ym mhentref Swyddffynnon hefyd. Enillodd y Bedyddwyr rhywfaint o dir yn yr ardal yn gynnar yn y 19eg ganrif ac mae hwn yn un o'u capeli prin yng nghanolbarth Ceredigion.

Corff Cors Goch

Ym 1811, tra'n gweithio ar Gors Caron, daeth torrwyr mawn ar draws corff dyn, heb ei ben, wedi claddu rhyw 3 metr i lawr yn y gors. Aed â'r gorff i fynwent Ystrad Meurig i'w hail-gladdu. Ni wyddys beth oedd oed y gorff ond, o ystyried y dyfnder a'r modd roedd yr olion wedi cael eu cadw mewn cyflwr da yn y mawnog, mae'n lled gredadwy i awgrymu mai olion dyn canoloesol ydoedd, neu hyd yn oed dyn o'r Oes Haearn neu Oes yr Efydd. Mae cryn nifer o gyrff o gyfnodau cynhanesyddol wedi eu darganfod mewn corsydd ar draws Ewrop, fel yr enghreifftiau enwog o Ddenmarc, lle daethpwyd o hyd i gyrff a'i pennau wedi torri ymaith a'i ddwylo wedi clymu – claddedigaethau defodol o bosibl – yn dyddio i Oes yr Haearn.

Prif themâu

Yn fras, dyma rhestr o'r brif themâu hanesyddol y gellir eu hadnabod yn seiliedig ar y gwybodaeth sy'n cael ei gynnwys yn y Cofnod Safleoedd a Henebion;

1. Mae'r dirwedd o gwmpas pentref Ystrad Meurig yn cynnwys amrywiaeth da o safleoedd archaeolegol, gan gynnwys bryngaer o'r Oes Haearn, dau gastell canoloesol, yr eglwys, safle ysbyty pererinion a'r hen ysgol ramadeg. Mae hefyd yn cynnig nifer o olygfeydd da o'r fro. Mae yn safle ardderchog ar gyfer dehongli hanes y fro.

2. Tywysogion a Chestyll. Mae hanes y gwrthdaro milwrol o gwmpas Ystrad Meurig yn cysylltu'r Arglwyddi Normanaidd â theuluoedd brenhinol Deheubarth a Gwynedd. Mae cyfle gwych i gyflwyno'r hanes yma yn y pentref.

3. Ysbytywyr Marchogion St Ioan. Mae'r traddodiad sy'n cysylltu pentref a chymuned Ystrad Meurig gyda'r Ysbytywyr Marchogion yn un bwysig ac yn haeddiannol o sylw.

4. Ysgol Ramadeg Edward Richard. Mae hanes y dyn hwn a'i ymrwymiad i addysgu plant y fro yn haeddu sylw. Mae adeilad hardd yr hen ysgol yn sefyll yn segur ar hyn o bryd ac yn deilwng o gael ei ddiogelu.

5. Yr eglwys yn Llanwnnws a'r garreg arysgrifenedig yno.

6. Dylid ystyried Pentref Swyddffynnon, sy'n cynnwys nifer o adeiladau hanesyddol, gan gynnwys melinau a chapeli, ar gyfer dehongliad cyffredinol o'i hanes.

Part 1: History and archaeology

Mesolithic (10,000BC – 4000BC)

During this distant period, it is thought that human communities periodically used the natural forests of this mountainous area as hunting grounds. The people of the time were hunter-gatherers ac therefore moved from place to place rather than staying in settled communities.

As they didn't build permanent houses, or bury their dead in graves that we can recognise today, it is difficult to find sites associated with Mesolithic peoples. Often, the only evidence that we can recognise are the flint scatters derived from tool making activities, which denote the sites where groups of hunters would stay for a time, as well as flint tools that were lost or discarded.

Very few sites of relevance are known at present in this area, indeed there are none known within Ystrad Meurig community. Two flint scatters have been found at Nantymoch, Blaenrheidol (now beneath the waters of the reservoir) and a single flint mace-head has been found near The Arch, in Pontarfynach community.

Neolithic (4,000 – 2500BC)

As far as is known, there are currently no sites of this period confirmed to be located within the community.

That is not to say that there was no human presence in the area during this period of course. There have been discoveries of Neolithic stone axes in neighbouring communities, including Ystrad Fflur, to the east.

The Neolithic was the age of the first farmers in the country and it is possible that the process of farming the land began locally during this period. Archaeology shows quite clearly that there was a settled human presence in the district during the Bronze Age and it may be that the origins of that society lie in the Neolithic.

Bronze Age (2500BC – 800BC)

Ystrad Meurig lies some distance to the west of the main Cambrian mountain range where a great number of Bronze Age burial mounds are known on the open mountain ground. However, Ystrad Meurig community has a number of comparable monuments, some in very good condition a (e.g. round barrow PRN 2045).

Although we can identify some of the sites where Bronze Age people buried their dead, there is an absence of evidence at present for the settlements in which the population lived. An enigmatic prehistoric site type usually attributed to the Bronze Age is the "burnt mound." These piles of burnt stone are thought to be cooking places, or alternatively the sites of ancient sweat-lodges, but we do not understand how they may have related to community life in what was a society characterised by a settled, farming population. A fine burnt mound, which is a Scheduled Ancient Monument, is recorded locally (PRN 1975).

Local discoveries of stone axes also help bring us closer in touch with the people of the period. Good examples of such tools are known locally (PRNs 12201 and 12853).

It should also be remembered that there is now evidence for Bronze Age ore mining in adjacent districts, especially at Copa Hill, Cwmystwyth, Pontarfynach, which may indicate the relative importance of what is now central Ceredigion during the period.

Much more work will be needed in future before we will be able to properly understand the nature of the communities that existed in the area during this period, and during earlier times.

Iron Age (800BC – 43AD)

This period is noted for the defensive hillforts, which were built to defend people and property in a society characterised by warrior chieftains and warbands. A strong hillfort, in good condition, still stands on Penyffrwd (PRN 2037), a short distance to the north of Ystrad Meurig church. Within its defences, the sites of at least three round houses can be seen.

Another type of defensive site typical of the period is the defended farmstead and an example of such a site is found near Gareglwyd. (PRN 2044).

Such defensive sites were of good construction and have usually survived the ravages of the past 2,000 years. What has been lost from the period is evidence of the homes of the common people who lived outside the hillforts. It is likely that the majority were engaged in farming the land, living in scattered houses and huts, perhaps escaping to the forts at times of war or when attacked by other tribes – there is no doubt that life could be dangerous at times.

The presence of hillforts does indicate that farming and permanent settlement was present in the Ystrad Meurig district during this period, as well as the exploitation of local woods and mountain pastures to sustain the population.

The Roman Period (43AD – 410AD

We know very little about the area during the Roman period (1st century AD – 4th century AD). Life in a rural area such as Ystrad Meurig may have proceeded peacefully throughout the Roman period, although there must have been considerable cultural and economic influences from the Roman world during nearly 400 years of contact. It is known that the old hillforts fell out of use across Wales after the Roman conquest. There are no recorded Roman or Romano-British finds from the community at present.

We know that the Romans were present in adjacent districts, as there are Roman forts at Crosswood, to the north, and Cae'r Gaer to the northeast (Llangurig parish, Powys). There are also finds of Roman coinage from Strata Florida. We know also of the Roman road running from Pumsaint, Carmarthenshire, through mid-Ceredigion and northwards to Machynlleth. It is possible that the metal ores of Central Ceredigion were an attraction for the Romans.

The Dark Ages or "The Age of the Saints" (410AD – 1092AD)

According to tradition, Ceredigion is named after Ceredig son of Cunedda, a Welsh prince who came from North Britain to defend the west coast from Irish incursions. Tradition also has it that St David, the patron saint of Wales, was the grandson of Ceredig.

Also in Welsh tradition, this period in history is often referred to as "The Age of the Saints," rather than the Dark Ages, because of the growth of the early church by the efforts of numerous Celtic saints. It is seen as an age of enlightenment, rather than a dark age, in Wales by many historians.

Despite such traditions being known to us, we know very little about the society of the time in this district during this period. Nevertheless, there is clear evidence of the activities of the early church in the Ystrad Meurig area. There is an inscribed stone at Llanwnnws church, which bears an interesting Latin inscription in memory of Hiroidil son of Carotinn and dates to the 9th century AD. It is likely that Llanwnnws is the earlier of the two churches in the community; as far as is known, the church at Ystrad Meurig is a medieval church. Llanwnnws is dedicated to the Celtic saint Gwnwys.

It is possible that some churches in the adjacent areas are ancient, with their origins in this period. In particular, we think of the ancient church of Llanddewi Brefi, to the south, which is associated with St David. There are also three Early Christian stones at Llantrisant church, Pontarfynach with crosses carved onto them. These date to the period c. 600 AD to 1100 AD and are proof of ecclesiastical activity in the district.

The Medieval Period (1092AD – 1540AD)

During this period, we see Ceredigion developing as one of the most important regions in Wales. It was conquered by the Normans in 1093 and thereafter followed a period of uncertainty, with the Welsh and Normans fighting for supremacy for nearly 200 years. During the second half of the 12th century, Ceredigion became an integral part of the kingdom of Deheubarth, led by Rhys ap Gruffudd, The Lord Rhys of Dinefwr. Following his death, there was further warfare between his sons and Llywelyn Fawr of Gwynedd. Ceredigion was also affected by the wars of the later 13th century, when Wales was finally conquered upon the fall of Llywelyn ap Gruffudd.

Remarkably, there are two castles of the period within the community area, as well as a third just a few yards over the community boundary in Ystrad Fflur community. We have no information of the history of the motte at Penycastell (PRN 1976), although its form suggests that it may never have been completed.

We know something of the other motte, which stands on the banks of the Afon Meurig, but outside the community boundary. This is probably the castle built by the Normans early in the 12th century when they first occupied Ceredigion. By the end of the 12th century, a much stronger castle had been built at the edge of the present village at Ystrad Meurig. This castle (PRN 2038) had a strong stone keep. On Christmas Eve, 1193, it was dramtically attacked by Maelgwn ap Rhys, son of the Lord Rhys. Heavy siege engines were employed to break the defences and capture the castle. Maelgwn had the castle destroyed in 1208, when the area came under threat from the forces of Llywelyn Fawr.

The most reliable information we have from the mediaeval period is that of the development of the granges of Strata Florida Abbey from the 12th century onwards. The Princes of Deheubarth founded Strata Florida, with the Lord Rhys himself granting lands to the monks. Over time extensive estates were granted to the Abbey. The details of some of these land grants have survived and the extent of the granges still known.

The Ystrad Meurig area bordered the home grange of Strata Florida and was therefore close to the heart of the Abbey's activities. We know that the community area included some lands that fell

within the monastic granges, but the village of Ystrad Meurig and its immediate neighbourhood remained outside.

Indeed, Ystrad Meurig has an association with a different ecclesiastical authority, namely the Knights Hospitallers of St John. It appears that they had a *hospitium* or hospice here during the Medieval period for the use of pilgrims travelling through the area. The fact that the parish church is dedicated to St John provides a link to the Knights Hospitallers.

Post-medieval (1540 AD – 1900 AD)

Industry

Unlike neighbouring communities to the north and west, Ystrad Meurig has always been a predominantly rural community. Most of the community area lies outside the main Ceredigion mining district, therefore there are very few metal mines within its boundaries. Only one significant mine lies within the community, namely Grogwynion (PRN 9152).

Mining wasn't the only local industry. Several small quarries are recorded in the community also, excavated in the past to provide building stone for the area.

It is also important to remember the significance of peat cutting on Cors Caron to the local community until the early 20th century. Peat was a cheap and plentiful fuel source much used in Central Ceredigion, where wood has long been in short supply.

There are corn and woollen mills recorded locally also. Swyddffynnon village had a corn mill until the 20th century (PRN8733). There was a woollen factory (PRN 21394) in the same village and another at Ty'n Graig village (PRN 19169.)

The area was served by the Milford and Manchester Railway during the late 19th and for most of the 20th centuries. The old Strata Florida railway station (PRN19669) lies within the community and the old track bed still winds its way through the local landscape. This railway undoubtedly did much to encourage trade and development in the communities through which it passed.

Farming and Rural Settlement

For centuries, the local landscape has been characterised by scattered farms and small hamlets and farming has been one of the mainstays of the area since early times. The farms of the community are likely to have moved stock to the mountains to the east for summer grazing as limited areas of marginal or mountain land have been available for summer pasture within the farmed landscape.

The modern settlement pattern is still one of scattered dwellings, with only a few small villages having developed during the last 200 years, such as Ystrad Meurig, Ty'n y Graig and Swyddffynnon. These are typically gathered around churches, chapels, mills and smithies and very much a product of post-medieval social and economic developments.

The Great Estates

Between the 16th and 20th centuries, a number of large estates owned most of the land the district. Many of these grew out of the estates of Strata Florida Abbey. With the Dissolution of the Abbeys

under Henry VIII during the 1530s, the process of breaking up Strata Florida's extensive and fairly wealthy estates and selling them into private ownership began. The names of estates such as Hafod, Nanteos, Crosswood and Gogerddan are fundamental to the study of the history of central Ceredigion.

Many of the abbey lands in the area went to the Earl of Essex, and from 1630 to the Crosswood estate, one of the most important in the county, and the most important estate in relation to Ystrad Meurig community. This can be seen at the old schoolhouse alongside Ystrad Meurig church, where a plaque shows that the 7th Earl of Lisburne of Crosswood established a library for parishioners.

Education

Ystrad Meurig is the location of a renowned 18th century grammar school founded by Edward Richard (PRN 5556), which was for a time held in the church. It was succeeded by a new building in the churchyard, which now stands in good condition but unused. The grammar school was intended for the education of children in the Anglican faith and therefore was somewhat exclusive in an area, which was predominantly nonconformist by the 19th century. Swyddffynnon village gained its own school in later Victorian times, open to children of all denominations. This too is now closed.

Nonconformism

The Calvinistic Methodists were the strongest denomination in the area in the past, and there are three Methodist chapels in the community, two of which were in use in 1998. That at Swyddffynnon is the oldest, the cause dating to c.1750 and inspired by the reforming zeal of Howell Harries and Daniel Rowland. A Baptist chapel also stands in Swyddffynnon village. The Baptists gained a foothold in the district in the early 19th century and only a few of their chapels are found in the district.

The Bog Man

In 1811, peat cutters working on Cors Caron uncovered the headless body of a man, buried 3 metres down in the bog. The body was taken to Ystrad Meurig churchyard for reburial. It is not known how old the body was, but the depth at which it was found and the state of its preservation, tanned by the peat in the bog, make it credible to suggest that it was at least of Medieval date, and possibly even of Iron Age or Bronze Age date. Prehistoric bodies are not uncommon finds in European peat bogs, such as the famous examples of possible ritual burials from Denmark, dated to the Iron Age, where decapitated and bound corpses have been found.

Main themes

In outline, this list presents the main historical themes that can be identified from the information held within the Sites and Monuments Record.

1. The landscape around Ystrad Meurig village includes a range of archaeological sites, including an Iron Age hillfort, two medieval castles, the church, a pilgrims' hospice site and grammar school. It also has several fine viewpoints. It is clearly suited as a place for heritage interpretation.

2. Princes and Castles. The medieval military conflicts around Ystrad Meurig draw together Norman Lords and the Royal Houses of Deheubarth and Gwynedd. There is great scope for interpretation of this theme at the village.

3. The Knights Hospitallers of St John. The tradition that associates the village and community of Ystrad Meurig with the Knights Hospitallers is an important one and deserves interpretation.

4. Edward Richard's Grammar School. This history of the man and his dedication to the education of local children is worthy of mention. This fine building is unused at present and worthy of preservation.

5. The church and inscribed stone of Llanwnnws.

6. The village of Swyddffynnon possess a number of historic buildings, including mills and chapels and might be considered for general interpretation.

Llyfrau i'w darllen

Reading list

Ffynhonell / Source:

"*Upland Ceredigion Historic Landscape Characterisation*"
gan/ by Ken Murphy, Archaeoleg Cambria Archaeology, 1999

Cyhoeddiedig / Published

Bick, D E, 1974 *The Old Metal Mines of Mid-Wales: Part 1 Cardiganshire - South of Devil's Bridge*

Bick, D E, 1983 *The Old Metal Mines of Mid-Wales: Part 2 The Rheidol to Goginan*

Bick, D E, 1988 *The Old Metal Mines of Mid-Wales: Part 3 Cardiganshire - North of Goginan*

Briggs, C S, 1994 'The Bronze Age', in J L Davies and D P Kirby (Eds.), *Cardigan County History, Volume 1, From the Earliest of Times to the Coming of the Normans*, 124-218

Cadw, 1992 *Strata Florida Abbey*

Carr, T and Schöne, A, 1993 *Pigs and Ingots: The Lead/Silver Mines of Cardiganshire*

Caseldine, A, 1990 *Environmental Archaeology in Wales*

Chapman, J, 1992 *A Guide to Parliamentary Enclosures in Wales*

Countryside Council for Wales, 1995 *Cors Caron*

Coyler, R, 1984 *Roads and Tracks of Wales*

Davies, J L, 1994 'The Roman Period' in J L Davies and D P Kirby (Eds.), *Cardigan County History, Volume 1, From the Earliest of Times to the Coming of the Normans*, 276-317

Davies, J L and Hogg, A H A, 1994 'The Iron Age', in J L Davies and D P Kirby (Eds.), *Cardigan County History, Volume 1, From the Earliest of Times to the Coming of the Normans*, 220-74

Davies, M, 1973 'Field systems of south Wales', in A R H Baker and R A Butlin (Eds.), *Studies of Field Systems in the British Isles*

Dodgshon, R A 1994 'Early society and economy', in J L Davies and D P Kirby (Eds.), *Cardigan County History, Volume 1, From the Earliest of Times to the Coming of the Normans*, 343-64

Edlin, H L, 1959 *Cambrian Forests*

Jones, G R J, 1985 'Forms and patterns of Medieval settlement in Welsh Wales', in D Hooke (Ed.), *Medieval Villages: A Review of Current Work*

Jones, G J, 1988 'Church and chapel in Cardiganshire, 1811-1914', in G H Jenkins and I G Jones (Eds.), *Cardiganshire County History, Volume 3, Cardiganshire in Modern Times*, 478-507

Jones Pierce, T, 1959 'Medieval Cardiganshire - a study in social origins', *Ceredigion*, 3 (1959), 1-19

Howells, B, 1974/75 'Social and agrarian change in early modern Cardiganshire', *Ceredigion*, 7, 256-72

King, D J C, 1956 'The castles of Cardiganshire', *Ceredigion*, 3, 50-69

Knowles, A K, 1998 'The structure of rural society in north Cardiganshire, 1800-1850', in G H Jenkins and I G Jones (Eds.), *Cardiganshire County History, Volume 3, Cardiganshire in Modern Times*

Lewis W J, 1955 *Ceredigion: Atlas Hanesyddol*

Lewis, W J, 1988 'Lead mining in Cardiganshire', in G H Jenkins and I G Jones (Eds.), *Cardiganshire County History, Volume 3, Cardiganshire in Modern Times*

Moore-Colyer, R J, 1998 'Agriculture and land occupation in eighteenth- and nineteenth-century Cardiganshire', in G H Jenkins and I G Jones (Eds.), *Cardiganshire County History, Volume 3, Cardiganshire in Modern Times*

Moore-Coyler, R J, 1998 'The landed gentry of Cardiganshire', in G H Jenkins and I G Jones (Eds.), *Cardiganshire County History, Volume 3, Cardiganshire in Modern Times*

Owen T M, 1990 *Torri Mawn*. Llyfrau Llafar Gwlad 17

Percival, D, 1998 'Inventory of nonconformist chapels and Sunday schools in Cardiganshire', in G H Jenkins and I G Jones (Eds.), *Cardiganshire County History, Volume 3, Cardiganshire in Modern Times*, 508-39

Radford, C A R, 1971 *Strata Florida Abbey*

Smith, P, 1966 'Type B regional houses', Archaeology in Wales, 6, 27-28

Smith, P, 1988 *Houses of the Welsh Countryside*

Smith, P, 1988 'The domestic architecture of the County. I. The rural domestic architecture: ffermdy, plas and bwthyn', in G H Jenkins and I G Jones (Eds.), *Cardiganshire County History, Volume 3, Cardiganshire in Modern Times*

Toulmin-Smith, L (Ed.), 1964 *The Itinerary in Wales of John Leland in or about the years 1536-1539*

Turner, J, 1964 'The anthropogenic factor in vegetational history 1: Tregaron and Whixall mosses', *New Phytologist*, 63, 73-89

Walker, R F, 1988 Tourism in Cardiganshire, 1774-1974', in G H Jenkins and I G Jones (Eds.), *Cardiganshire County History, Volume 3, Cardiganshire in Modern Times*, 299-322

Williams, D H, 1990 *Atlas of Cistercian Lands in Wales*

Williams, S W, 1889 *The Cistercian Abbey of Strata Florida*

Heb eu cyhoeddi / Unpublished

